

Sicrhau newid er gwell i bawb yng Nghymru
nawr ac yn y dyfodol, a bod yn llyfrgell
genedlaethol agored, arloesol a blaengar

Datganiad Llesiant 2021 - 2026



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Holl ddiben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny a fyddai'n ein rhwystro rhag cyrraedd prif nod y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r Llyfrgell ystyried effaith hir dymor ei phenderfyniadau, i weithio'n well gyda'n gilydd o fewn a thu allan i'r Llyfrgell, a hynny er mwyn atal a dileu'r hyn sy'n annerbyniol yn eich cymdeithas, megis tlodi, anghydraddoldeb, afiechyd a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn ein hannog ni i weithio'n gydlynol i greu'r wlad y dymunem ni oll fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf wedi pennu saith nod llesiant (gweler y cylch ar y dde), a hynny er mwyn sicrhau fod cyrff cyhoeddus fel y Llyfrgell yn teithio gyda'i gilydd i'r un cyfeiriad. Mae'r datganiad hwn yn nodi sut y bwriadai'r Llyfrgell gyfrannu at gyrraedd y nodau hynny ac felly gwneud gwahaniaeth positif a pharhaol nid yn unig i'r genhedlaeth bresennol ond hefyd i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n egluro hefyd sut y bu i'n hamcanion lles gael eu datblygu a'u cytuno.

Gweledigaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw, yn unol â'i Strategaeth yw:

Sicrhau newid er gwell i bawb yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol, a bod yn llyfrgell genedlaethol agored, arloesol a blaengar

Datblygwyd ein gweledigaeth i wneud ein diwylliant a'n treftadaeth yn hygyrch i bawb allu dysgu, ymchwilio a mwynhau o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac fe'i ffurfiwyd trwy'r wybodaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu ac ymgynghori ag Ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr a'n rhandaliad.

Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i ysbrydoli a gwella bywydau unigolion trwy bresenoldeb y Llyfrgell yng Nghymru a thrwy ein casgliadau a chynyddu ymdeimlad o hunan lesiant a hunaniaeth, i ddarganfod, mwynhau a dysgu, ac i ddeall lle Cymru yn y byd.

Rydym wedi pennu pedwar maes ymrwymiad ble medrwn wneud y gwahaniaeth mwyaf sylweddol i fywydau bobl ein gwlad dros y ddegawd nesaf. Ein bwriad yw canolbwyntio'n gwaith ar gyflawni ein strategaeth a chyfrannu at y saith nod llesiant.



Yr ymrwymiadau yw:

- 1. Meithrin a gofalu am gof y genedl:** Blaenoriaethu'r dasg o gofnodi amrywiaeth profiadau'r Gymru gyfoes, a thrwy fod yn gof y genedl, parhau i gasglu, rheoli a diogelu ein casgliadau
- 2. Gosod sylfaen economi gwybodaeth:** Hwyluso mynediad i gasgliadau yn ddigidol gan roi ystyriaeth o'r cychwyn i'r galw a'r defnydd posibl ohonynt
- 3. Bod yn ganolog i fywyd Cymru:** Adeiladu a chefnogi rhwydweithiau a chymunedau o gwmpas ein casgliadau a'n gwasanaethau, a diwylliant a threftadaeth Cymru yn ehangach
- 4. Grymuso ymchwil a dysg:** Cefnogi addysg uwch ac ymchwil academiaidd, gan gydweithio mewn meysydd ymchwil sy'n seiliedig ar ein casgliadau neu'n berthnasol i agweddau o Gymru, a hefyd cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau ôl-16 mewn ysgolion a cholegau

Amcanion strategol a llesiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'n hamcanion strategol a llesiant yn cynnwys y cyfnod 2021-2026, ac yn cyd redeg â'r Cynllun Strategol, *Llyfrgell i Gymru a'r Byd*

1. Meithrin a gofalu am gof y genedl
2. Gosod sylfaen economi gwybodaeth
3. Bod yn ganolog i fywyd Cymru
4. Grymuso ymchwil a dysg



Perthynas yr amcanion strategol â nodau llesiant y ddeddf

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
-----------------	----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Amcanion								
1.	Meithrin a gofalu am gof y genedl							
	Cofnodi Cymru gyfoes, gan bwysleisio pwysigrwydd cofnodi ein presennol yn ogystal â'n gorffennol		✓	✓	✓		✓	
	Ymrwymo i amrywedd, gan sicrhau bod ein casgliadau'n gynrychioliadol o bob agwedd ar fywyd a hanes Cymru, yn enwedig y cymunedau hynny sydd wedi'u tangynrychioli yn y gorffennol				✓	✓	✓	✓
	Darparu arbenigedd mewn diogelu a rheoli gwybodaeth ddigidol a ffisegol ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu archif genedlaethol bwrpasol i Gymru	✓	✓					✓
2.	Gosod sylfaen economi gwybodaeth							
	Darparu mynediad at wybodaeth sy'n ysbrydoli ac yn bywiogi, gan greu cyfleoedd i fusnesau a'r sector creadigol ymgysylltu â'n casgliadau	✓	✓	✓		✓		
	Galluogi'r cyhoedd i gymryd rhan yn natblygiad y cof cenedlaethol	✓		✓	✓		✓	
	Gwella ansawdd profiad y defnyddiwr ac yn dod yn gyrchfan i ymwelwyr ac ymchwilwyr yng Nghymru ac yn fyd eang ar y we	✓		✓	✓			✓

3.	Bod yn ganolog i fywyd Cymru							
	Cysylltu ag yn cydweithio â chymunedau ledled Cymru ac ar draws y byd			✓		✓	✓	✓
	Rhannu ein casgliadau'n eang a darparu manau i ddehongli a thrafod agweddau ar orffennol, presennol a dyfodol Cymru			✓	✓	✓		
	Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn fyd-eang ac yn meithrin cysylltiadau rhyngwladol rhwng Cymru a'r byd	✓	✓				✓	✓
4.	Grymuso ymchwil a dysg							
	Cefnogi addysg yng Nghymru, yn enwedig y cwricwlwm a chymwysterau ôl-16 mewn ysgolion a cholegau	✓	✓				✓	✓
	Gweithio gyda phrifysgolion ac ymchwil academiaidd yng Nghymru drwy gydweithio mewn meysydd ymchwil yn seiliedig ar ein casgliadau neu sy'n berthnasol o agweddau ar Gymru	✓	✓		✓	✓		
	Darparu llwybrau dirwysr i'n casgliadau, gan alluogi dysgu anffurfiol a gydol oes, ymarfer creadigol a datblygiad proffesiynol parhaus	✓		✓		✓	✓	

Pum ffordd o weithio

Byddwn yn ymdrechu i gyflawni ein hamcanion trwy'r Pum Ffordd o Weithio a nodir yn y Ddeddf:



Tymor Hir – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd

Atal – Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu'r Llyfrgell i gyflawni ei hamcanion

Integreiddio – Ystyried sut gall amcanion llesiant y Llyfrgell effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill

Cydweithio – Cydweithredu ag unrhyw berson arall all helpu'r Llyfrgell i fodloni ei amcanion llesiant

Cynnwys – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r Llyfrgell yn ei gwasanaethu